# POLISI BUDDSODDI MOESEGOL A BANCIO MOESEGOL

Sarah Jones

Y Prif Swyddog Ariannol

**Fersiwn reoli:**

| | |
|---|---|
| Perchennog | Y Prif Swyddog Ariannol |
| Rhif y fersiwn | 1.0 |
| Dyddiad Cymeradwyo | 16 Tachwedd 2023 |
| Cymeradwywyd gan | Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth |
| Dyddiad Dod i Rym | 16 Tachwedd 2023 |
| Dyddiad yr Adolygiad Nesaf | Tachwedd 2024 |

## 1. Cyflwyniad

Mae Prifysgol Abertawe'n ymroddedig i gyflawni dim allyriadau carbon erbyn 2040 fel a nodir yn Strategaeth Cynaliadwyedd Prifysgol Abertawe 2021-25 ac mae wedi ymrwymo i fod yn garbon niwtral mewn adeiladau erbyn 2035.

I gefnogi'r Strategaeth hon, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod yr holl benderfyniadau am fancio a buddsoddi'n cael eu gwneud mewn modd cyfrifol, gan gydbwyso mwyafu twf, risg wrth hefyd fuddsoddi mewn ffordd foesegol.

## 2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl fuddsoddiadau ariannol a wneir gan y Brifysgol neu ei his-gwmnïau (gan gynnwys cronfeydd gwaddol) boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy drefniadau buddsoddiad a gronnir.

## 3. Egwyddorion

Mae'r Brifysgol yn ceisio mabwysiadu ymagwedd foesegol a chynaliadwy i'w at ei buddsoddiadau drwy gynnwys ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu i'w phenderfyniadau buddsoddi a bancio. Ei nod yw gwneud hyn drwy gymhwyso'r egwyddorion canlynol at benderfyniadau sy'n ymwneud â buddsoddi neu fancio:

(i) Ni fydd y Brifysgol yn buddsoddi mewn sefydliadau lle gallai'r buddsoddiad wrthdaro neu fod yn anghyson â'i gwerthoedd.
(ii) Bydd y Brifysgol yn ceisio pwyso a mesurcydbwyso nodweddion moesegol a chynaliadwy ei buddsoddiadau gyda'r â'r amcanion ariannol o sicrhau cyfalaf a dychweliad ar fuddsoddiad fel a nodir ym Mholisi Rheoli'r Drysorlys
(iii) Dilynir arweiniad y Comisiwn Elusennau ar faterion buddsoddi gan y Bbrifysgol ar bob adeg
(iv) Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'w rheolwyr cronfeydd a'i bancwyr i gynnwys ystyriaethau'r ESG wrth ddewis, cadw a gwireddu ei buddsoddiadau

## 4. Polisi

Bydd y Brifysgol yn cefnogi buddsoddiad sy'n cyd-fynd â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, buddsoddi mewn sefydliadau sy'n arddangos y priodweddau canlynol (heb fod yn gyfyngedig i hyn):

(i) Presenoldeb polisïau a rheoliadau er mwyn diogelu cymunedau a phobl leol i atal cam-drin hawliau dynol a gwahaniaethu
(ii) Presenoldeb polisïau a rheoliadau i amddiffyn yr amgylchedd er mwyn atal difrod amgylcheddol, colli bioamrywiaeth a chynefinoedd
(iii) Dangos ymagwedd gadarnhaol at unigolion, cymunedau a pherfformiad amgylcheddol
(iv) Datblygu technolegau amgylcheddol i leihau effeithiau llygredd neu ddiwydiannau dinistriol a newid yn yr hinsawdd

Bydd buddsoddi yn y rhestr ganlynol o themâu moesegol nad yw’n holl gynhwysfawr naill ai'n cael eiu heithrio neu eiu gcyfyngu i gwmnïau sy'n cynhyrchu llai na 10% o'u hincwm o thema benodol:

(i) Newid yn yr hinsawdd, fel a ddiffinnir gan y canlynol:
- Echdynnu glo, olew/tywod tar, tanwyddau ffosil eraill
- Cyfleustodau trydanol nad ydynt yn cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy Cytundebiad Paris

(ii) Arfogaeth a gweithgynhyrchu arfau ac arfau niwclear i'w gwerthu i fyddinoedd lywodraethau milwrol
(iii) Gweithgynhyrchu, cynhyrchu a chynaeafu tybaco (wedi'i eithrio)
(iv) Adloniant oedolion (wedi'i eithrio)
(v) Gamblo, ac eithrio'r Loteri Genedlaethol a lotrïau elusennol (wedi'i eithrio)
(vi) Profi ar anifeiliaid ar gyfer colur
(vii) Benthycag gyda chyfraddau llog uchel (wedi'i eithrio)
(viii) Diffyg ymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol fel a ddiffinnir gan y canlynol:
- Diffyg cynllun newid yn yr hinsawdd wedi'i gyhoeddi a'i fonitro
- Diffyg cynllun i leihau gwastraff plastig wedi'i gyhoeddi a'i fonitro

**5. Llywodraethu ac adrodd**

5.1 Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, sy'n cynnwys aelod myfyriwr o'r Cyngor, yn gyfrifol am adolygu a chymeradwyo Polisi Buddsoddi a Bancio Moesegol y Brifysgol.

5.2 Gall unrhyw aelod o'r Brifysgol (staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr) gyflwyno cynrychioliadau i'r Brifysgol o ran buddsoddiadau penodol sy'n groes, yn eu barn hwy, i werthoedd neu amcanion y Brifysgol. Dylai cynrychioliadau o'r fath gael eu cyfeirio at y Prif Swyddog Ariannol sy'n gan nodi achos ar sail tystiolaeth. Bydd y Prif Swyddog Ariannol yn cyflwyno achosion o'r fath i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth i'w hystyried.

5.3 Caiff rhestr o fuddsoddiadau a wnaed neu a gedwir drwy gydol y flwyddyn academaidd flaenorol ei llunio gan y Prif Swyddog Ariannol a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn y mis Tachwedd yn dilyn diwedd y flwyddyn academaidd. Caiff y rhestr hon ei chyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

5.4 Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol.